# ADOLYGIAD O GYFRES ARHOLIADAU HAF 2019

CYMWYSTERAU CYMRU QUALIFICATIONS WALES

CYNNWYS

# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 3 |
| Paratoi ar gyfer y gyfres | 6 |
| Cynnal y gyfres a marcio | 13 |
| Gosod safonau, dyfarnu a chanlyniadau | 26 |
| Ar ôl y canlyniadau | 33 |
| Casgliad | 34 |

# Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi trosolwg o gyfres arholiadau haf 2019; ein dull o oruchwylio'r gwaith o ddarparu, gosod safonau a dyfarnu asesiadau ar gyfer cymwysterau cyffredinol a gaiff eu sefyll gan ddysgwyr yng Nghymru.

Cyfres arholiadau'r haf yw'r brif gyfres arholiadau y mae Cymwysterau Cymru yn ei rheoleiddio. Ein rôl yn y gyfres, fel rheoleiddiwr annibynnol cymwysterau yng Nghymru, yw sicrhau bod prosesau priodol ar waith ar gyfer darparu asesiadau TGAU, UG a Safon Uwch a chraffu ar y broses o ddyfarnu'r cymwysterau hyn a Bagloriaeth Cymru.

Marciwyd bron i 740,000 o bapurau arholiad yng Nghymru yng nghyfres haf 2019. Roedd sgriptiau TGAU ychydig o dan 80% o'r cyfanswm hwn, gyda gweddill y sgriptiau wedi'u rhannu rhwng UG a Safon Uwch. Cafodd 75% o'r sgriptiau a ddyfarnwyd yng Nghymru eu marcio gan ddefnyddio systemau marcio ar sgrin.[1]

Rhif 1

**739,655 papur arholiad wedi'u marcio yng Nghymru**

**580,695 TGAU**

**91,000 UG**

**67,855 Safon Uwch**

**75% wedi'u marcio ar-lein**

**369,430 tystysgrif wedi'u dyfarnu yng Nghymru yn haf 2019**

[1] https://www.qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/reviews-of-marking-and-moderation-for-gcse-as-and-a-level-in-wales-summer-2018-exam-series/
- gweler Tabl 1 o dablau data cysylltiedig.

Mae'r cymwysterau diwygiedig wedi cael eu cyflwyno mewn tri cham, felly mae'r rhai a ddyfarnwyd yr haf hwn ar gamau gwahanol yn eu cylch oes.

### Cam 3 – addysgu cyntaf 2017

TGAU: Busnes, Cyfrifiadureg, Dylunio a Thechnoleg, Hanes, Astudio'r Cyfryngau, Astudiaethau Crefyddol, Cymraeg Ail Iaith.
TAG: Dylunio a Thechnoleg, Llywodraeth a Gwleidyddiaeth, Y Gyfraith, Mathemateg, Mathemateg Bellach ac Astudio'r Gyfryngau.

### Cam 2 – addysgu cyntaf 2016

TGAU: Celf a Dylunio, Drama, Bwyd a Maetheg, Ffrangeg, Daearyddiaeth, Almaeneg, Cerddoriaeth, Addysg Gorfforol, Sbaeneg.

TAG: Drama, Ffrangeg, Daearyddiaeth, Almaeneg, Cerddoriaeth, Addysg Gorfforol, Astudiaethau Crefyddol, Sbaeneg, Cymraeg Ail Iaith.

### Cam 1 – addysgu cyntaf 2015

TGAU: Saesneg Iaith, Llenyddiaeth Saesneg, Mathemateg, Mathemateg-Rhifedd, Cymraeg Iaith, Llenyddiaeth Gymraeg.

TAG: Celf a Dylunio, Bioleg, Busnes, Cemeg, Cyfrifiadureg, Economeg, Saesneg Iaith, Iaith a Llenyddiaeth Saesneg, Llenyddiaeth Saesneg, Hanes, Ffiseg, Seicoleg, Cymdeithaseg, Cymraeg Iaith

Rhif 2

**Nifer y cymwysterau diwygiedig y dyfarnwyd yn haf 2019**



Ym mhob achos, ar gyfer pob cymhwyster TAG Safon Uwch, cynhaliwyd dyfarniad UG y flwyddyn flaenorol. Ym mhob cam, cafwyd rhai modelau darparu ansafonol:

- Cafodd cam un TGAU Mathemateg a TGAU Mathemateg-Rhifedd eu dyfarnu am y tro cyntaf ym mis Tachwedd 2016
- Dyfarnwyd Safon Uwch mewn Mathemateg yn llawn, flwyddyn ar ôl dechrau'r addysgu, er mwyn caniatáu ar gyfer y ffordd y mae'n cael ei ddarparu gan lawer o ysgolion ochr yn ochr â Safon Uwch mewn Mathemateg Bellach.

O ran Tystysgrifau Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru, dyfarnwyd Tystysgrifau Her Sgiliau Uwch a Chyfnod Allweddol 4 am y trydydd tro, a dyfarnwyd Tystysgrifau Her Sgiliau ôl-16 Cenedlaethol a Sylfaenol am y pedwerydd tro.

CBAC sydd yn darparu'r cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch diwygiedig yng Nghymru, a Bagloriaeth Cymru. Mae nifer fach o gymwysterau TGAU a Safon Uwch, sydd wedi'u datblygu ar gyfer Lloegr, mewn pynciau nad ydynt wedi cael eu diwygio yng Nghymru, yn cael eu darparu gan AQA, OCR, Pearson a CBAC (o dan frand Eduqas).

Rydym yn rheoleiddio'r cymwysterau hyn ochr yn ochr â'n cyd-reoleiddwyr, Ofqual a CCEA.

## ARHOLIADAU 360°

**Cipolwg manylach ar Fagloriaeth Cymru**

# Paratoi ar gyfer y gyfres

## Ein dull rheoleiddio

Gwnaethom ddilyn gwaith paratoi CBAC ar gyfer arholiadau'r haf yn fanwl. Gwnaethom fonitro eu dull o ymdrin â chyfres yr haf ac, yn benodol, y ffordd maent yn nodi ac yn rheoli risgiau i'r gwaith o gynnal y gyfres yn ddiogel. Mae tri cham y rhaglen ddiwygio wedi'u cwblhau erbyn hyn, felly roedd y gyfres hon yn cynnwys y nifer fwyaf o gymwysterau diwygiedig.

Ynghyd â'n cyd-reoleiddwyr, Ofqual a'r Cyngor Cwricwlwm, Arholiadau ac Asesu, gwnaethom ymgysylltu â phob bwrdd arholi sy'n cynnig cymwysterau TGAU a Safon Uwch, yn ogystal â'r corff sy'n eu cynrychioli, sef y Cyd-gyngor Cymwysterau (JCQ). Drwy'r gwaith hwn fe wnaethom nodi risgiau a materion, cyfnewid gwybodaeth a chael diweddariadau rheolaidd.

## Cydweithio

Ym mis Mai, gwnaethom gyhoeddi datganiad ystadegol yn nodi nifer dros dro y cofrestriadau ar gyfer arholiadau i'w sefyll yng nghyfres yr haf. Mae'r adroddiad yn cynnwys tablau yn nodi nifer dros dro y cofrestriadau a gyflwynwyd gan fyrddau arholi ar gyfer TGAU, tystysgrifau Lefel 1/2, Safon UG a Safon Uwch ar gyfer yr arholiadau a safwyd rhwng mis Mai a mis Mehefin 2019. Mae hefyd yn cynnwys cofrestriadau dros dro ar gyfer y Dystysgrif Her Sgiliau. Mae'r ffigurau hyn yn ddangosydd defnyddiol o newidiadau posibl mewn canlyniadau a allai ddatblygu oherwydd amrywiadau yn nifer y cofrestriadau o flwyddyn i flwyddyn.[2]

[2] https://qualificationswales.org/media/2435/3-countries-4pp-cym.pdf

## Cofrestriadau

Ym mis Mai, gwnaethom gyhoeddi datganiad ystadegol yn nodi nifer dros dro y cofrestriadau ar gyfer arholiadau i'w sefyll yng nghyfres yr haf[3]. Mae'r adroddiad yn cynnwys tablau yn nodi nifer dros dro y cofrestriadau a gyflwynwyd gan fyrddau arholi ar gyfer TGAU, tystysgrifau Lefel 1/2, Safon UG a Safon Uwch ar gyfer yr arholiadau a safwyd rhwng mis Mai a mis Mehefin 2019. Mae hefyd yn cynnwys cofrestriadau dros dro ar gyfer y Dystysgrif Her Sgiliau. Mae'r ffigurau hyn yn ddangosydd defnyddiol o newidiadau posibl mewn canlyniadau a allai ddatblygu oherwydd amrywiadau yn nifer y cofrestriadau o flwyddyn i flwyddyn.

## Cofrestriadau ar gyfer Safon UG a Safon Uwch

Yng Nghymru, gostyngodd nifer y cofrestriadau ar gyfer Safon Uwch 5.1% i 31,920, a gostyngodd nifer y cofrestriadau ar gyfer Safon UG 8.0% i 41,410.

Tabl 1

| | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm cofrestriadau Safon Uwch** | 38,480 | 37,640 | 35,530 | 33,640 | 31,920 |

*Ffynhonnell: 2015 i 2017 – Ofqual; 2018 to 2019 – Cyrff Dyfarnu*

| | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm cofrestriadau UG** | 57,030 | 52,620 | 48,970 | 44,990 | 41,410 |

*Ffynhonnell: 2015 i 2017 – Ofqual; 2018 to 2019 – Cyrff Dyfarnu*

Gostyngodd nifer y cofrestriadau ar gyfer y cymwysterau Safon UG diwygiedig o 1.9%. Cododd nifer y cofrestriadau ar gyfer cymwysterau Safon Uwch diwygiedig o 26.0% oherwydd dyfarniad cyntaf cymwysterau cam 3, a oedd yn cynnwys Mathemateg, pwnc â nifer fawr o gofrestriadau. Cynhyrchodd ein Pennaeth Ymchwil flog am y newid yn nifer y cofrestriadau ar gyfer Safon UG a Safon Uwch yn yr haf[4]. Mae gostyngiad yn niferoedd y bobl ifanc 17 a 18 oed yng Nghymru wedi bod yn un o brif achosion y gostyngiad yn nifer y cofrestriadau. Yn ogystal â hynny, mae llai o bobl ifanc 17 oed yn cymryd pedwar neu ragor o gymwysterau UG ac mae cyfran y bobl ifanc 18 oed sy'n cymryd un cymhwyster UG wedi gostwng hefyd. Mae hyn yn esbonio pam mae'r gostyngiad yn nifer y cofrestriadau ar gyfer cymwysterau UG wedi bod yn gyflymach nag ar gyfer Safon Uwch.

**BLOG**

**Pam fod niferoedd ymgeiswyr Safon UG a Safon Uwch yn dal i ddisgyn yng Nghymru?**

[3] https://www.qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/provisional-data-on-entries-for-summer-may-2019/

[4] https://qualificationswales.org/cymraeg/gwybodaeth-i-randdeiliaid/ir-wasg/blogiau-ac-erthyglau/why-are-as-level-and-a-level-entries-continuing-to-fall-in-wales/

Rydym wedi cyhoeddi ffeithluniau ar y data ar gyfer cofrestriadau Safon Uwch ac UG.







# GWYBODAETH

**Ffeithluniau cyfres arholiad haf 2019**

## Cofrestriadau TGAU

Cynyddodd nifer cofrestriadau TGAU dros dro yr haf 4.5% i 303,640 yn 2019, yn bennaf oherwydd cynnydd yn nifer y myfyrwyr sy'n sefyll arholiadau ym mlwyddyn 11. Dangosir hyn yn y ffeithlun isod.

Rhif 3

**Cofrestriadau yn ôl grŵp blwyddyn**



Ddwy flynedd yn ôl, safodd y nifer uchaf erioed o fyfyrwyr ym mlwyddyn 10 arholiadau TGAU yn gynnar, a olygai fod nifer sylweddol o fyfyrwyr blwyddyn 11 y llynedd wedi cyflawni eu cymwysterau TGAU mewn Cymraeg Iaith, Saesneg Iaith, Mathemateg a Mathemateg – Rhifedd cyn cyfres arholiadau haf 2018 ac felly ni chafodd eu canlyniadau eu cynnwys yn nata'r haf. Nawr bod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno polisi sy'n datgan mai, o haf 2019, dim ond canlyniad cyntaf myfyriwr sy'n cyfrif tuag at dablau perfformiad ysgol, mae rhai newidiadau sylweddol wedi bod i strategaethau cofrestru ysgolion.

Rhif 4

**Cofrestriadau TGAU Cam 1 a gymeradwywyd 2017 i 2019**




*Ffynhonnell: Cofrestriadau dros dro arholiadau Haf 2019 Cymru*

Yn gyffredinol mae hyn wedi arwain at gynnydd yn nifer y disgyblion blwyddyn 11 a safodd arholiadau TGAU yn haf 2019.

**Cyfanswm cofrestriadau i fyny 4.5%**

Mae'r cynnydd cyffredinol wedi'i yrru gan fwy o gofrestriadau blwyddyn 11.

Mae hyn yn debygol oherwydd:

- newidiadau i faint y boblogaeth
- newidiadau i fesurau perfformiad ysgolion

Gellir gweld newidiadau yn nifer y cofrestriadau ar gyfer y cymwysterau TGAU cam 2 a gymeradwywyd isod, yn ogystal â chofrestriadau ar gyfer cam terfynol y cymwysterau TGAU diwygiedig a gyflwynwyd.

Tabl 2

| Cofrestriadau TGAU Cam 2 a gymeradwywyd 2018 vs 2019 | | | |
|---|---|---|---|
| **TGAU a gymeradwywyd** | **2018** | **2019** | **Gwahaniaeth Canrannol** |
| Gwyddoniaeth Gymhwysol (Dyfarniad Dwbl)* | 3,505 | 2,830 | -19.3% |
| Gwyddoniaeth Gymhwysol (Dyfarniad Unigol) | 510 | 855 | 67.5% |
| Celf a Dylunio | 7,740 | 8,875 | 14.7% |
| Bioleg | 7,065 | 7,360 | 4.2% |
| Cemeg | 6,825 | 7,250 | 6.3% |
| Drama | 2,300 | 2,240 | -2.7% |
| Bwyd a Maeth | 1,960 | 2,120 | 8.3% |
| Ffrangeg | 3,525 | 3,025 | -14.2% |
| Daearyddiaeth | 7,320 | 7,290 | -0.5% |
| Almaeneg | 755 | 570 | -24.7% |
| Cerddoriaeth | 2,145 | 2,185 | 1.8% |
| Addysg Gorfforol | 6,790 | 6,615 | -2.6% |
| Ffiseg | 6,795 | 6,990 | 2.8% |
| Gwyddoniaeth (Dyfarniad Dwbl) | 39,050 | 40,050 | 2.6% |
| Sbaeneg | 1,100 | 1,425 | 29.7% |

** Rydym wedi cyfrif ceisiadau am gymwysterau gwyddoniaeth dyfarniad dwbl ddwywaith i adlewyrchu'r ffaith bod maint y cymhwyster yn cyfateb i ddau TGAU ac i fod yn gyson â sut mae'r Cyd-Gyngor Cymwysterau (CGC) yn adrodd am gymwysterau yr haf hwn.*

9

## TGAU newydd yng Nghymru eleni

| | |
|---|---|
| Busnes | 2,950 |
| Cyfrifiadureg | 1,950 |
| Dylunio a Thechnoleg | 5,460 |
| Hanes | 9,520 |
| Astudio'r Cyfryngau | 1,365 |
| Addysg Gorfforol (Cwrs Byr) | 430 |
| Astudiaethau Crefyddol | 9,905 |
| Astudiaethau Crefyddol (Cwrs Byr) | 6,010 |
| Cymraeg Ail Iaith | 19,670 |

## Monitro cyn y gyfres

Cynlluniwyd rhaglen gynhwysfawr o waith monitro i oruchwylio pob cam o'r broses asesu a dyfarnu. Gwnaethom fonitro'r broses o gynhyrchu papurau arholiad ac asesiadau di-arholiad cyn y gyfres. Cynhaliwyd y prosesau hyn fel arfer yn hydref 2017 neu wanwyn 2018. Gwnaethom arsylwi ar 35 o gyfarfodydd y Pwyllgor Gwerthuso Papurau Cwestiynau (QPEC) a oedd yn ystyried asesiadau ar gyfer y gyfres hon. Mae hyn yn ostyngiad bach ar nifer yr arsylwadau ar gyfer cyfres 2018, sy'n cysylltu â'n lefel arfaethedig o fonitro ar gyfer y gyfres lawn gyntaf a'r dyfarniad cyntaf o bob cymhwyster.

Rhif 5




Gwnaethom hefyd fonitro rhai sesiynau hyfforddi Datblygiad Proffesiynol Parhaus i athrawon a darlithwyr, a ddarparwyd gan CBAC. Galluogodd hyn ni i gasglu gwybodaeth am ansawdd yr hyfforddiant a ddarperir ac i sicrhau y dilynwyd ein rheoliadau (Amod G4 o'n Hamodau Cydnabod Safonol[5]) ynghylch diogelu cyfrinachedd, ac felly, ddilysrwydd deunyddiau asesu.

Fe wnaethom gwblhau adroddiad manwl a rhoi adborth i CBAC ar ôl pob gweithgaredd monitro. Yn y rhan fwyaf o achosion roedd yr adborth hwn yn rhannu arfer gorau i'w ystyried. Os oedd adborth o arsylwad QPEC yn ymwneud ag addasrwydd unrhyw asesiad neu degwch i ddysgwyr, trefnwyd dilyniant. Mewn rhai achosion, mae ein hadborth wedi arwain at CBAC yn adolygu agweddau ar y gweithdrefnau safonol a ddilynwyd.

[5] https://www.qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/amodau-cydnabod-safonol/

## Cyfathrebu â rhanddeiliaid

Cyn cyfres arholiadau'r haf, gwnaethom barhau â'n hymgyrch wybodaeth i godi ymwybyddiaeth o'r cymwysterau TGAU a TAG newydd sy'n cael eu dyfarnu yng Nghymru. Anfonom lythyr[6] i bob ysgol a choleg yng Nghymru, cyn i'r arholiadau ddechrau. Rhoddodd hyn drosolwg o ble y gellid dod o hyd i wybodaeth ddefnyddiol er mwyn cefnogi cyflwyno sesiwn arholiadau saff a diogel. Ar ddiwedd y sesiwn arholiad, anfonom lythyr pellach[7] yn amlinellu ein rôl yn y broses arholi ac yn arbennig ein rôl yn diogelu safonau a sicrhau tegwch i ddysgwyr. Roedd y llythyr hwn hefyd yn amlinellu'r data ar gofrestriadau a gyhoeddwyd yn ein datganiad data ar gofrestriadau dros dro, a'r hyn y gallai ei olygu ar gyfer canlyniadau cenedlaethol yr haf hwn.

Eleni, yn y cyfnod cyn arholiadau'r haf, lansiwyd maes newydd o'n gwefan gennym o'r enw **Arholiadau 360**, a gynlluniwyd i gynnig golwg gyffredinol ar y system arholiadau. Mae'r maes yma'n cynnwys cyfres o erthyglau **'Golwg Fanylach Ar'** sy'n ychwanegu at y rhai a ryddhawyd mewn cyfresi blaenorol. Mae'r rhain yn rhoi esboniadau byr o'r ffordd y caiff cymwysterau eu hasesu, eu marcio a'u dyfarnu, a chrynodeb o'r newidiadau allweddol i gymwysterau penodol. Mae gan Arholiadau 360 hefyd dudalen blog yn arbennig er mwyn cynnwys cyfraniadau gan awduron gwadd yn ogystal â'n harbenigwyr ein hunain. Ehangodd ystod pynciau'r blog eleni i gynnwys, er enghraifft, beth i'w wneud pan fyddwch wedi cael arholiad gwael ac ymdopi â straen arholiadau. Roedd y wefan hefyd yn cynnig awgrymiadau ymarferol i Swyddogion Arholiadau prysur a myfyrwyr sy'n mynd drwy'r broses arholiadau. Nod yr ystod o gynnwys oedd egluro agweddau ar y system arholiadau er mwyn helpu rhanddeiliaid sydd â diddordeb – fel athrawon, dysgwyr a rhieni – i'w deall yn gliriach.

Fel mewn cyfresi blaenorol, rhoesom friffiau i'r cyfryngau i roi rhywfaint o gyd-destun i'r canlyniadau, gan esbonio'r newidiadau i'r cymwysterau newydd ac effaith bosibl y newidiadau hyn. Yn y cyfnod yn arwain at y ddau ddiwrnod canlyniadau, rhoesom gyfres o sesiynau briffio ar gyfer rhanddeiliaid allweddol. Roedd y rhain yn canolbwyntio ar y prif bethau i'w cadw mewn cof wrth ddehongli canlyniadau eleni, gan gynnwys sut mae dyfarnu yn gweithio, newidiadau i gymwysterau a newidiadau i nifer a math y myfyrwyr sy'n sefyll yr arholiadau. Ar y ddau ddiwrnod canlyniadau, gwnaethom gyflwyno cynnwys newydd, gan gynnwys trosolwg i helpu pobl i wneud synnwyr o'r canlyniadau ar lefel genedlaethol. Gwnaethom hefyd rannu amrywiaeth o awgrymiadau byr ar ffurf fideo ar draws sianeli'r cyfryngau cymdeithasol ar ddiwrnodau canlyniadau i ymgysylltu â chynulleidfaoedd a'u llywio at gynnwys Arholiadau 360 ar ein gwefan[8].

ARHOLIADAU 360°

Golwg 360 ar y system arholiadau

- Sut y caiff papurau eu gosod?
- Beth sy'n digwydd yn ystod y broses farcio?
- Pwy sy'n penderfynu ar y graddau?
- Beth yw rôl Cymwysterau Cymru?
- Cyngor a chanllawiau
- Tudalen blog Arholiadau 360.
- Golwg fanylach ar...
- Cyfres y gaeaf 2019/2020
- Cyfres arholiadau flaenorol

[6] https://www.qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/letter-to-schools-in-wales-summer-2019-exams/
[7] https://www.qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/letter-to-schools---summer-2019-exams/
[8] https://www.qualificationswales.org/cymraeg/exams-360/a-360-look-at-the-exam-system/

# Cynnal y gyfres

## Trefniadau mynediad a cheisiadau am ystyriaeth arbennig

Mae byrddau arholi yn gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer dysgwyr ag anableddau a dysgwyr sydd dan anfantais ar adeg yr arholiad (er enghraifft, trwy anaf neu salwch). Gelwir yr addasiadau hyn yn 'drefniadau mynediad'[9]. Cytunir ar drefniadau mynediad cyn i'r arholiad gael ei sefyll a gallant gynnwys, er enghraifft, darparu papur wedi'i addasu (megis meintiau ffont mwy) ac amser ychwanegol i gwblhau'r arholiad.

Os yw dysgwr wedi bod yn absennol o arholiad oherwydd salwch, anaf neu brofedigaeth, neu os yw ei berfformiad mewn arholiad wedi cael ei effeithio gan salwch, anaf neu brofedigaeth, gall yr ysgol neu'r coleg ofyn am ystyriaeth arbennig i'r dysgwr. Bydd y bwrdd arholi, lle bo'n berthnasol, yn amcangyfrif marc i'r dysgwr, neu'n addasu'r marc a roddwyd i'r dysgwr.

Rydym bellach yn cynhyrchu datganiadau ystadegol ar gyfer Cymru yn unig, gan gynnwys data a oedd yn arfer cael eu cynnwys mewn datganiad tair-gwlad a gyhoeddwyd gan Ofqual.  Cyhoeddom ddau ddatganiad ystadegol ar ôl cyfres arholiadau'r haf. Mae'r rhain yn adrodd ar drefniadau mynediad a cheisiadau am ystyriaeth arbennig ar gyfer TGAU a Safon Uwch yn ystod blwyddyn academaidd 2018/19[10].

[9] The Equality Act 2010 defines disability.

[10] https://www.qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/trefniadau-mynediad-ar-gyfer-cymwysterau-tgau-uwch-gyfrannol-a-safon-uwch-yng-nghymru/ **a** https://www.qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/special-consideration-for-gcse-as-and-a-level-in-wales-summer-2018-exam-series/

## Trefniadau mynediad

Gostyngodd nifer y trefniadau mynediad a gymeradwywyd yng Nghymru 1.0% i 20,905 yn 2017-18.

Unwaith eto, rhoi 25% o Amser Ychwanegol yw'r trefniant mynediad a gymeradwywyd amlaf, a oedd yn cyfrif am tua dwy ran o dair o gyfanswm Cymru yn 2017-18. Cynyddodd nifer y cymeradwyaethau ar gyfer y trefniant hwn 2.1% i 13,540 yn 2018.

Tabl 3

| Trefniadau mynediad | 2013/14 | 2014/15 | 2015/16 | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 25% o amser ychwanegol | 10,280 | 10,700 | 11,945 | 13,260 | 13,540 | 14,340 |
| Llety amgen | 180 | 185 | 45 | 0 | 0 | 0 |
| Geiriadur dwyieithog gydag amser ychwanegol | 485 | 425 | 220 | 125 | 115 | 105 |
| Darllenydd cyfrifiadur / Darllenydd | 4,350 | 4,530 | 4,860 | 5,285 | 5,140 | 5,105 |
| Arholiad ar bapur lliw | 230 | 335 | 390 | 600 | 330 | * |
| Amser ychwanegol > 25% | 155 | 130 | 145 | 160 | 165 | 180 |
| Addasydd iaith lafar | 155 | 125 | 45 | 0 | 0 | 0 |
| Cynorthwyydd ymarferol ar gyfer papur ymarferol | 35 | 30 | 40 | 25 | 40 | 55 |
| Cynorthwyydd ymarferol ar gyfer papur ysgrifenedig | 40 | 30 | 50 | 40 | 50 | 65 |
| Ysgrifennydd | 1,505 | 1,485 | 1,570 | 1,550 | 1,430 | 1,505 |
| Dehonglydd iaith arwyddion | 5 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Arall | 15 | 20 | 60 | 70 | 85 | 120 |
| **Cyfanswm** | **17,450** | **18,005** | **19,370** | **21,120** | **20,905** | **21,475** |

*Ffynhonnell: O 2017-18 JCQ; 2013-14 i 2016-17 – Ofqual*

## Ceisiadau am ystyriaeth arbennig

Roedd 38,280 o geisiadau am ystyriaeth arbennig ar gyfer cyfres haf 2019 yng Nghymru – gostyngiad  o 8.1 % o gymharu â'r gyfres haf flaenorol.

Cynyddodd cyfran y ceisiadau am ystyriaeth arbennig a gymeradwywyd (90.1%) o gymharu â'r llynedd (79.9%). Roedd cyfran y ceisiadau a gymeradwywyd yn anarferol o isel yn 2018 oherwydd nifer o geisiadau gan grwpiau a wrthodwyd a oedd yn ymwneud â gwaith adeiladu ar safle'r ysgol, nad yw'r Cyd-bwyllgor Cymwysterau yn ei ystyried yn rheswm dilys dros gael ystyriaeth arbennig. Mae cyfran 2019 yn cyd-fynd yn fwy â ffigurau cyn 2018. Arhosodd cyfran cyfanswm y sgriptiau a'r asesiadau nad oeddent wedi'u hamserlennu y rhoddwyd ystyriaeth arbennig iddynt (3.4%) yn sefydlog o'u cymharu â ffigurau cyfatebol ar gyfer cyfres haf 2017 a 2018.

Tabl 4

| | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer y ceisiadau am ystyriaeth arbennig** | 38,755 | 32,940 | 40,925 | 41,650 | 38,280 |
| **Nifer y ceisiadau a gymeradwywyd** | 36,710 | 31,625 | 38,925 | 33,280 | 34,480 |
| **Canran y ceisiadau a gymeradwywyd** | 94.7% | 96.0% | 95.1% | 79.9% | 90.1% |
| **Ceisiadau a gymeradwywyd fel canran o gyfanswm y sgriptiau ac asesiadau heb eu hamserlenni** | 4.6% | 2.8% | 3.3% | 3.2% | 3.4% |

*Ffynhonnell: 2015 i 2017 – Ofqual; 2018 ymlaen – Cyrff dyfarnu*

## Digwyddiadau yn ymwneud â chyfres yr haf yn 2019

Rhaid i fyrddau arholi ein hysbysu o unrhyw ddigwyddiad sy'n debygol o arwain at effaith andwyol ar fyfyrwyr neu sy'n peryglu uniondeb cymhwyster rheoleiddiedig; er enghraifft, gwallau mewn deunyddiau asesu, neu dorri ar ddiogelwch papur arholiad. Gallai digwyddiadau sy'n deillio o'r tu allan i Gymru fod â'r potensial i effeithio ar fyfyrwyr o Gymru sydd wedi eu cofrestru ar gyfer yr un cymhwyster.

Pan fyddwn yn derbyn hysbysiad, rydym yn cadarnhau bod y bwrdd arholi yn cymryd camau priodol i leihau'r effaith ar ddysgwyr yng Nghymru ac i atal y sefyllfa rhag digwydd eto.

## TGAU Cyfrifiadureg

Fe'n hysbyswyd gan CBAC am ddau fater mewn asesiadau TGAU Cyfrifiadureg. Cyhoeddwyd y ffeil electronig anghywir ar gyfer Uned 2, sy'n golygu na allai rhai canolfannau redeg y fersiwn a oedd ei hangen ar gyfer cwestiwn 9 yr asesiad. Gwnaeth CBAC y penderfyniad i ddweud wrth ganolfannau am gynghori myfyrwyr i beidio ag ateb y cwestiwn yr effeithiwr arno. Roedd yr ail fater yn ymwneud â chysylltedd, a achosodd ychydig o oedi wrth i'r data gael ei ddiweddaru.

Gwnaethom fonitro camau gweithredu cyntaf CBAC i sicrhau bod hyn yn effeithio cyn lleied â phosibl ar ddysgwyr a bod canolfannau'n cael eu diweddaru'n llawn.  Gwnaethom graffu ar ddull CBAC o ddyfarnu er mwyn sicrhau nad oedd unrhyw ymgeiswyr o dan fantais nac o dan anfantais oherwydd y gwallau. Nododd CBAC gwestiynau addas yn yr un uned er mwyn amcanu perfformiad ar gyfer y cwestiwn gyda'r gwall. Fe wnaethant hefyd ddadansoddi perfformiadau er mwyn sicrhau bod unrhyw ymgeiswyr a gynhyrchodd waith ar gyfer y cwestiwn yn cael eu credydu â marc gwell y gymhariaeth. Rydym yn fodlon bod cyfathrebu CBAC â chanolfannau, ar y pryd, o gwmpas diwrnodau canlyniadau ac ers hynny, yn ddigonol, ac ymddengys ei fod wedi bod yn effeithiol. Rydym yn parhau i drafod gweithredodd a chynlluniau CBAC i sicrhau nad yw'r gwallau hyn yn digwydd eto mewn cyfresi yn y dyfodol.

Mae'r adran hon yn rhoi trosolwg o'r digwyddiadau sy'n ymwneud â chymwysterau Safon Uwch, Safon UG a TGAU, ar gyfer cyfres haf 2019.

Cawsom ein hysbysu am 111 o ddigwyddiadau gan fyrddau arholi yn ymwneud â chyfres haf 2019, erbyn diwedd Rhagfyr 2019. Efallai nad yw'r ffigur hwn yn gyflawn, oherwydd gall digwyddiadau ddod i'r amlwg ar unrhyw adeg cyn neu ar ôl i asesiad gael ei gyflwyno. Fodd bynnag, erbyn pwynt tebyg yn 2018, roeddem wedi cael gwybod am 12 yn fwy o ddigwyddiadau yn ymwneud â chyfres haf 2018, nag yr ydym wedi'u cael eleni.

Mae'r tabl isod yn rhoi dadansoddiad o'r digwyddiadau sy'n ymwneud â chyfres yr haf, yn ôl bwrdd arholi:

Rhif 6




Rhif 7




Rydym yn categoreiddio digwyddiadau fel a ganlyn:

- Gwallau mewn papurau cwestiynau – materion sy'n ymwneud ag unrhyw ddeunydd a ddefnyddir at ddibenion asesu, gan gynnwys y cynllun marcio.
- Torri diogelwch - unrhyw achos o ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol neu ddeunyddiau asesu.
- Camymddwyn - achos o dorri'r rheoliadau'n fwriadol neu'n ddi-hid, yng Nghymru, a allai danseilio uniondeb asesiad.
- Marcio – materion yn ymwneud â'r broses o farcio asesiadau a chyhoeddi canlyniadau.
- Gwallau proses a system – materion yn ymwneud â phrosesau neu systemau a ddefnyddir naill ai gan y bwrdd arholi neu ganolfan arholi.
- Arall – digwyddiadau nad ydynt yn dod o dan unrhyw un o'r categorïau uchod.

## Gwallau mewn papurau cwestiynau

Mae asesiadau yn destun prosesau sicrhau ansawdd mewnol wrth iddynt gael eu llunio, sy'n cymryd 18 mis ar gyfartaledd. Fodd bynnag, mae camgymeriadau mewn papurau cwestiynau, cyfieithu i'r Gymraeg a'r broses addasu20 yn gallu digwydd o bryd i'w gilydd.
Pan fydd gwallau'n cael eu canfod cyn i asesiad gael ei sefyll, mae'r bwrdd arholi yn anfon hysbysiad erratwm i ysgolion a cholegau i leihau'r effaith ar ddysgwyr ac yn rhoi gwybod i ni am y digwyddiad.

Mewn ychydig iawn o achosion, darganfyddir gwallau ar ôl i'r asesiad gael ei sefyll. Mae byrddau arholi yn rhoi gwybod i ni am y digwyddiad, gan esbonio pa effaith y mae'r gwall wedi'i gael ar ddysgwyr a, lle bo angen, pa gamau y byddant yn eu cymryd i sicrhau nad yw dysgwyr o dan anfantais. Er enghraifft, gall byrddau arholi ddiwygio cynllun marcio i wneud iawn am gamgymeriad neu roi marciau i bob dysgwr yn yr achosion mwyaf difrifol. Mae'r mesurau hyn yn sicrhau nad oes unrhyw ddysgwyr dan anfantais.

Rhoddwyd gwybod i ni am 39 o wallau mewn papurau cwestiynau yng nghyfres yr haf, gostyngiad o 20% yn gyffredinol. Gyda 15% o'r gwallau mewn papurau cwestiynau y rhoddwyd gwybod i ni amdanynt, ni chafwyd unrhyw effaith ar allu myfyrwyr i ateb y cwestiwn. Cafwyd 31 o ddigwyddiadau gydag effaith bosibl ar ddysgwyr, ac fe'u monitrwyd i sicrhau nad oedd unrhyw ddysgwyr o dan anfantais.

Mewn dau achos, roedd rhaid i fyrddau arholi ddiystyru cwestiynau nad oedd modd eu hateb neu a oedd yn aneffeithiol. Mae hyn yn ostyngiad ers y llynedd.

- Mewn un digwyddiad, ni allai'r dysgwyr agor y ffeil yr oedd ei hangen i gwblhau cwestiwn mewn arholiad TGAU Cyfrifiadureg. Derbyniodd y myfyrwyr farc rhagamcanol ar gyfer y cwestiwn yr effeithiwyd arno, yn seiliedig ar eu perfformiad mewn cwestiynau eraill yn yr arholiad a oedd yn asesu yr un sgiliau.
- Mewn ail ddigwyddiad, roedd modd ateb cwestiwn mewn papur Ffiseg Safon Uwch gan ddefnyddio gwybodaeth a ddarparwyd mewn cwestiwn dewisol yn ddiweddarach yn yr un papur. Dyfarnwyd y marc am y cwestiwn hwn i bob ymgeisydd.

Rhif 8



## Achosion o dorri diogelwch

Mae papurau arholiad yn cael eu cadw'n ddiogel gan fyrddau arholi a chan ysgolion a cholegau tan ddiwrnod yr arholiad. Yn achlysurol bydd achos o dorri diogelwch yn digwydd ac yn cael ei adrodd i ni, ynghyd â chamau gweithredu y bydd y bwrdd arholi yn eu cymryd er mwyn lliniaru'r effaith. Gall y camau hyn gynnwys:

- monitro'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn gwerthuso i ba raddau y mae diogelwch wedi'i dorri;
- cynnal dadansoddiadau ystadegol o sgriptiau arholiadau a gwblhawyd mewn canolfannau yr effeithiwyd arnynt, i ganfod unrhyw berfformiadau annodweddiadol;
- galw'r papur arholiad sydd i'w sefyll yn ôl a llunio un newydd.

Rydym yn monitro'r camau y mae cyrff dyfarnu yn eu cymryd i ymchwilio i achosion o dorri diogelwch yn ofalus, yn cynnal dadansoddiadau ystadegol i nodi ymgeiswyr a allai fod wedi cael mantais annheg, ac yn cosbi'r unigolion neu'r canolfannau dan sylw.

Rhif 9



Roedd y rhan fwyaf o'r achosion o dorri diogelwch eleni yn deillio o ganolfannau (53%). Dim ond chwech o'r rhain a ddeilliodd o ganolfannau yng Nghymru. Mae'r gyfran gynyddol o achosion o dorri diogelwch a ddosberthir fel arall/anhysbys yn adlewyrchu'r nifer cynyddol o achosion o dorri diogelwch a nodwyd i ddechrau gan gyrff dyfarnu ar gyfryngau cymdeithasol neu drwy rwydweithiau electronig eraill. Gall fod mai ymgeiswyr unigol yw ffynhonnell yr achosion hyn, yn hytrach na staff y ganolfan neu'r corff dyfarnu. Yr haf yma, roedd 19 (42%) o doriadau diogelwch yn cynnwys cyfathrebu gwybodaeth gyfrinachol yn electronig, sy'n gallu cynyddu graddfa ac effaith achos unigol o dorri diogelwch, a'r niwed posibl i hyder y cyhoedd. Mae defnydd cyrff dyfarnu o dechnoleg i nodi ac ymchwilio i'r toriadau hyn yn galonogol.

Bu cynnydd bach yn nifer y digwyddiadau a oedd yn ymwneud â thoriadau diogelwch posibl gan staff cyrff dyfarnu. Rydym yn ddiolchgar i gyrff dyfarnu sy'n rhoi gwybod i ni am achosion posibl o dorri diogelwch yn gynnar. Ar ôl ymchwilio, ni chanfu cyrff dyfarnu unrhyw dystiolaeth fod unrhyw un o'r digwyddiadau hyn wedi arwain at ddatgelu deunyddiau cyfrinachol i ddysgwyr drwy dorri diogelwch.

Mae rhywfaint o dystiolaeth bod gwaith a wnaed gan fyrddau arholi y llynedd i wella diogelwch wrth gludo deunyddiau wedi bod yn effeithiol.

## Marcio

Fe'n hysbysir gan fyrddau arholi os oes unrhyw broblemau o ran hynt y marcio yn ystod cyfres yr haf, ansawdd y marcio, neu gywirdeb y canlyniadau a gyhoeddwyd. Fe'n hysbyswyd o chwe digwyddiad a allai gael effaith bosibl ar safonau ar gyfer cymwysterau penodol. Ym mhob un o'r achosion hyn, rydym wedi monitro ymateb y bwrdd arholi, i sicrhau bod dysgwyr yn cael eu trin yn deg, ac i gadarnhau nad oedd unrhyw effaith ehangach ar safonau.

Rhif 10



## Camymddwyn

Rydym yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau arholi gymryd pob cam rhesymol i atal camymddwyn gan fyfyrwyr a chanolfannau, ac i ymchwilio i honiadau yn drylwyr. Os canfyddir tystiolaeth o gamymddwyn, mae'n ofynnol i fyrddau arholi osod sancsiynau priodol.

Cyhoeddwyd datganiad ystadegol gennym yn Ionawr 2020, sy'n cyflwyno data ar nifer y cosbau a throseddau camymddwyn yng Nghymru ar gyfer cymwysterau TGAU, UG a Safon Uwch yn haf 2019[11]. Mae'r datganiad yn cynnwys manylion am y mathau o gamymddwyn y rhoddwyd gwybod amdanynt gan fyrddau arholi ac unrhyw gosbau a roddwyd ganddynt.

Rhoddwyd 200 o gosbau i fyfyrwyr am gamymddwyn yn haf 2019, cynnydd o 5.7% o gymharu â 210 o gosbau yn 2018. Mae nifer y cosbau a roddwyd i fyfyrwyr yn haf 2019 yn cynrychioli tua un gosb am bob 5,500 o fyfyrwyr a gofrestrwyd ar gyfer TGAU, UG a Safon Uwch, sef (cynnydd, gostyngiad, nifer cyson) o gymharu â chyfres arholiadau haf 2018. Yn ôl cyfran, rhoddwyd mwy o gosbau a oedd yn ymwneud â chymwysterau TGAU na Safon UG a Safon Uwch.

Cymryd ffôn symudol i mewn i ystafell arholi yw'r drosedd gamymddwyn fwyaf cyffredin o hyd, ac mae'n cyfrif am 54.0% o'r holl gosbau a roddwyd.

## Camymddwyn honedig y rhoddwyd gwybod i ni amdano yn ystod y gyfres arholiadau

Lle gallai achos o gamymddwyn honedig effeithio ar safonau neu hyder y cyhoedd, rhaid i fwrdd arholi roi gwybod i ni amdano yn brydlon fel digwyddiad, yn ystod y gyfres arholiadau. Rydym yn monitro'r camau a gymerir gan fyrddau arholi mewn perthynas â'r achosion hyn yn fanwl. Adroddodd y byrddau arholi ar wyth digwyddiad i ni yn ystod y gyfres arholiadau. Gwnaethant bedwar canfyddiad o gamymddwyn honedig ac un canfyddiad o gamweinyddu honedig, o ran y digwyddiadau hyn. (Mae 3 ymchwiliad yn mynd rhagddynt ar hyn o bryd).

Rhoddwyd sancsiynau cyfrannol ym mhob achos o gamymddwyn neu gamweinyddu a gadarnhawyd. Hefyd, cymerodd y byrddau arholi gamau i sicrhau nad oedd camymddwyn honedig yn rhoi mantais neu anfantais i ddysgwyr yng Nghymru, fel ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr gwblhau asesiad arall yn lle'r asesiad gwreiddiol, rhoi ystyriaeth arbennig, a chyhoeddi canlyniadau cymsywterau yn seiliedig ar farciau rhagamcanol.

Rhif 11

**Camymddwyn Wedi'u Adrodd 2018 & 2019**




Cyhoeddwyd JCQ yr adroddiad Comisiwn Annibynnol ar Gamymddwyn Arholiadau yn haf 2019. Mae hyn yn pwysleisio'r rolau allweddol niferus sy'n gysylltiedig â systemau arholi llwyddiannus.

[11] https://www.qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/camymddwyn-yng-nghymwysterau-tgau-ug-a-safon-uwch-yng-nghymru-cyfres-arholiadau-haf-2019/

## Monitro yn ystod y gyfres

Yn ogystal â monitro'r broses o gynhyrchu deunydd asesu, gan gynnwys papurau arholiad ac asesiadau di-arholiad, a gynhaliwyd cyn y gyfres, gwnaethom hefyd arsylwi ar gyfarfodydd safoni cymedrolwyr ac arholwyr. Mae'r cyfarfodydd hyn yn sicrhau bod dealltwriaeth dda o'r cynllun marcio y mae'n rhaid ei ddilyn ac mae'n bwysig wrth osod y safonau ar gyfer marcio a chymedroli. Yn y cyfarfodydd hyn, mae cyfle i addasu'r cynlluniau marcio er mwyn sicrhau y rhoddir credyd i ymgeiswyr yn deg. Nid yw cynlluniau marcio ar eu ffurf derfynol nes bod y broses safoni hon wedi'i chwblhau. Arsylwom 66 o gyfarfodydd ar gyfer pynciau TGAU a 38 ar gyfer UG a Safon Uwch. Gwnaethom hefyd fonitro'r broses o gymedroli Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru, gan fynychu dau gyfarfod.

Ym mhob achos lle y gwelwyd gwallau mewn papurau, aethom i'r digwyddiad safoni perthnasol i fod yn fodlon bod camau priodol wedi'u cymryd i sicrhau nad oedd unrhyw ymgeiswyr yn cael mantais neu'n cael eu hanfanteisio. Ym mhob achos, roeddem yn fodlon bod hyn yn wir.

Rhif 12




ARHOLIADAU 360°

Golwg fanylach ar farcio

Gwnaethom hefyd fonitro llwyfannau cyfryngau cymdeithasol, fel Facebook a Twitter, sy'n ffyrdd mwyfwy poblogaidd o gynnig sylwadau i lawer o ymgeiswyr. Gwnaethom hyn i nodi tueddiadau sy'n ymwneud ag arholiadau penodol er mwyn ni eu hystyried fel rhan o'n gwybodaeth fonitro ar y gyfres arholiadau.

## Holiadur Dweud Eich Dweud

Fe wnaethom gynnal holiadur ar-lein, Dweud Eich Dweud, eto yn 2019, i gasglu safbwyntiau ar yr arholiadau TGAU, UG a Safon Uwch gan fyfyrwyr ac athrawon.

Roedd yr holiadur ar-lein ar gael rhwng mis Mai a mis Gorffennaf. Gallai ymatebwyr roi sylwadau ar unrhyw arholiad, ond roedd yn canolbwyntio'n benodol ar yr arholiadau TGAU, UG a Safon Uwch diwygiedig. Cynhaliwyd yr holiadur i gasglu adborth uniongyrchol am yr arholiadau, a allai fod yn ddefnyddiol o'i gyfuno â gwybodaeth arall.

Cwblhaodd 254 o bobl yr holiadur, sy'n ostyngiad sylweddol ar haf 2018. O'r 254 hyn, roedd 180 gan athrawon a darlithwyr; llawer mwy na'r nifer oddi wrth fyfyrwyr. Fe ofynnon ni pa mor anodd oedd yr arholiadau, a oedden nhw'n asesu'r fanyleb yn deg, a gafodd y myfyrwyr ddigon o amser, ac am sylwadau cyffredinol am y cymwysterau. Roedd y cwestiynau yr un fath ag oeddent yn y gyfres flaenorol.



## TGAU Ieithoedd Tramor Modern

Cafwyd peth sylw gan y cyfryngau, yng Nghymru a Lloegr, a oedd yn awgrymu bod lefel canfyddedig anhawster y cymwysterau diwygiedig wedi effeithio ar y nifer sy'n cymryd cymwysterau ITM. Roedd hyn yn cyd-daro â'r arholiad cyntaf ar gyfer TGAU Ffrangeg a gwelsom gynnydd yn yr ymatebion i'n holiadur Dweud Eich Dweud. Parhaodd hyn drwy gydol y gyfres, i raddau. Dadansoddwyd ymatebion a daeth themâu cyffredin i'r amlwg a oedd yn ymwneud â phryderon ynghylch lefel yr her a gyflwynwyd gan yr asesiad, yn ogystal ag ehangder y manylebau ITM yn gyffredinol.

Gwnaethom drafod y canfyddiadau hyn gyda CBAC. Gwnaethom graffu ar ddyfarnu'r cymwysterau hyn a nodwyd bod ffiniau graddau yn is mewn TGAU Ffrangeg nag y buont yn y gyfres flaenorol. Roeddem yn fodlon bod y dyfarniad yn deg i ymgeiswyr.

Rydym yn ystyried y pryderon a godwyd am yr asesiadau ITM, yn ogystal â gwybodaeth a gafwyd o weithgareddau eraill ar y manylebau diwygiedig. Byddwn yn gweithio gyda CBAC i archwilio unrhyw gamau a allai fod yn angenrheidiol i wella'r profiad i ddysgwyr yn y manylebau diwygiedig.

## Canfyddiadau'r holiadur

Dadansoddwyd yr ymatebion i'r cwestiynau ar wahân ar gyfer dysgwyr ac athrawon.

Rhif 13

**Ymatebion dysgwyr**

**A oedd y papur(au) arholiad yn cynnwys y pynciau yn y fanyleb?**




**Roeddwn i'n teimlo bod yr arholiad(au)...**




**A oedd gennych ddigon o amser i gwblhau'r arholiad(au)**



Rhif 14

**Ymatebion athrawon**

**A oedd y papur(au) arholiad yn cynnwys y pynciau yn y fanyleb?**




**Roeddwn i'n teimlo bod yr arholiad(au)...**




**A oedd gennych ddigon o amser i gwblhau'r arholiad(au)**




Cafwyd 32 o ymatebion ar gyfer cymwysterau Safon UG a 26 ar gyfer Safon Uwch.
Dangosir y pynciau lle cafwyd mwy na 2 ymateb yn y tabl isod:
Tabl 5

| TAG Safon UG | UG - Nifer yr ymatebion | % o'r holl ymatebion UG |
|---|---|---|
| Bioleg UG | 4 | 12.5% |
| Hanes UG | 3 | 9.4% |
| Ffiseg UG | 3 | 9.4% |
| Seicoleg UG | 3 | 9.4% |
| **TAG Safon U2** | **U2 - nifer yr ymatebion** | **% o'r holl ymatebion U2** |
| Ffrangeg U2 | 7 | 26.9% |

Cafwyd 196 o ymatebion ar gyfer TGAU. Dangosir y pynciau lle cafwyd mwy na 2 ymateb yn y tabl isod:
Tabl 6

| TGAU | Ymatebion | % ymatebion |
|---|---|---|
| Celf a Dylunio | 4 | 2% |
| Cemeg | 4 | 2% |
| Cyfrifiadureg | 11 | 5.6% |
| Dylunio a Thechnoleg | 3 | 1.5% |
| Gwyddoniaeth Dyfarniad Dwbl | 3 | 1.5% |
| Saesneg Iaith | 8 | 4% |
| Llenyddiaeth Saesneg | 3 | 1.5% |
| Ffrangeg | 95 | 48.5% |
| Hanes | 8 | 4% |
| Mathemateg - Rhifedd | 5 | 2.6% |
| Cerddoriaeth | 3 | 1.5% |
| Ffiseg | 5 | 2.6% |
| Sbaeneg | 12 | 6.1% |
| Cymraeg Ail Iaith | 12 | 6.1% |

Gwnaethom rannu pob un o'r sylwadau ar gymwysterau penodol â CBAC er mwyn iddo eu hystyried ac rydym yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd i lywio ein gwaith monitro ac ymchwil.

Rydym wedi adolygu a gwerthuso'r holiadur. Mae'n amlwg bod ymgysylltu ag ymarferwyr yn digwydd yn amlach nag ydyw gydag ymgeiswyr, er bod nifer yr ymatebion yn isel ar y cyfan. Byddwn yn parhau i geisio casglu adborth am yr arholiadau byw a byddwn yn edrych ar ffyrdd gwahanol o wneud hyn yng nghyfres i'r dyfodol.

Mae cyfyngiadau i'r data a gasglwyd gan yr holiadur. Mae natur benagored yr holiadur, a'r ffaith bod y sampl o ymatebwyr yn dewis ei hun, yn golygu na fyddai dadansoddiad ystadegol pellach yn ddilys.

# Gosodiad safonau, dyfarnu a chanlyniadau

## Gosod safonau ar gyfer TGAU, UG a Safon Uwch

Cafodd nifer fach o gymwysterau newydd, a gynlluniwyd yn benodol ar gyfer dysgwyr yng Nghymru, eu dyfarnu am y tro cyntaf yn haf 2019. Gwnaethom graffu'n fanwl ar broses CBAC o osod ffiniau gradd priodol ar gyfer y cymwysterau hyn drwy gydol y cyfnod dyfarnu.

Lle dyfarnwyd cymwysterau newydd am y tro cyntaf, ein blaenoriaeth oedd nad oedd myfyrwyr yn cael mantais annheg neu eu bod o dan anfantais o ganlyniad i unrhyw newidiadau. Ar gyfer y cymwysterau hyn, roedd yn ofynnol gennym i CBAC ddefnyddio'r dulliau sefydledig o ddyfarnu a all gywiro'r newid mewn sefyllfaoedd lle y gall gostyngiad bach mewn perfformiad ddigwydd pan gyflwynir cymwysterau newydd. Dyma'r dull a ddefnyddiwyd yn llwyddiannus yn yr hafau blaenorol wrth ddyfarnu'r cymwysterau newydd.

Ar gyfer cymwysterau a oedd yn cael eu dyfarnu am yr eildro neu fwy, roedd yn ofynnol gennym i CBAC gynnal y safon a osodwyd yn y dyfarniadau cynharach. Ein blaenoriaeth, felly, yw sicrhau bod safonau priodol yn cael eu gosod a'u cynnal dros amser ac ar draws pob cymhwyster, i fod yn deg i fyfyrwyr y gorffennol, y presennol a'r dyfodol. Gosododd uwch arholwyr yn CBAC ffiniau gradd gan ddefnyddio gwybodaeth ystadegol ac enghreifftiau o waith myfyrwyr i sefydlu ble y dylid pennu ffiniau gradd allweddol ar gyfer pob cymhwyster.

Lle mae'r garfan o fyfyrwyr sy'n sefyll y cymhwyster yn debyg i flynyddoedd blaenorol, rydym yn disgwyl i'r canlyniadau fod yn debyg. Mae byrddau arholi yn llunio rhagfynegiadau ar gyfer deilliannau pob cymhwyster a disgwylir i ganlyniadau fod yn unol â'r rhagfynegiadau hyn. Fodd bynnag, nid oes unrhyw gwotâu na dyraniadau i'w llenwi ac rydym yn disgwyl gweld rhywfaint o amrywiaeth yn y canlyniadau. Os bydd canlyniadau'n amrywio mwy nag y byddem yn ei ddisgwyl fel arfer, mae angen tystiolaeth arnom sy'n cefnogi newid gwirioneddol mewn cyrhaeddiad myfyrwyr, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol.

ARHOLIADAU 360°

Golwg agosach ar ffiniau gradd

Pan fydd byrddau arholi yn rhoi tystiolaeth i ni i gefnogi gwelliant neu yn wir ddirywiad mewn cyrhaeddiad myfyrwyr, rydym yn ystyried a yw'r dystiolaeth yn cyfiawnhau'r newid arfaethedig i ganlyniadau. Amlinellir y broses hon yn ein dogfen ar gyfnewid data. Fel y rheoleiddiwr, rydym yn adolygu canlyniadau dyfarniadau a, pan fo dyfarniad y tu allan i'r goddefiant, rydym yn adolygu'r dystiolaeth a gyflwynwyd gan y bwrdd arholi i benderfynu a ellir cyfiawnhau'r dyfarniad. Wrth adolygu'r dystiolaeth, rydym yn cadw'r tair egwyddor ganlynol mewn cof:

**1. tegwch i ddysgwyr;**
**2. hyder y cyhoedd yn y canlyniadau sy'n cael eu cyhoeddi; a**
**3. cynnal safonau.**

Mae'r un dull o osod a chynnal safonau yn cael ei ddefnyddio gan reoleiddwyr yn Lloegr a Gogledd Iwerddon ar gyfer cymwysterau TGAU a Safon Uwch. Mae manylion y dull a ddefnyddir gan CBAC ar gyfer cymwysterau cymeradwy yng Nghymru i'w gweld ar **wefan** CBAC.

Bydd y dull sefydledig yn arwain at ganlyniadau tebyg flwyddyn ar ôl blwyddyn os yw'r garfan ar gyfer y pwnc yn parhau'n debyg o ran ei gallu cyffredinol. Fodd bynnag, pan fydd cymhwyster yn newid, gall fod mwy o amrywioldeb flwyddyn ar ôl blwyddyn nag arfer yn y canlyniadau ar gyfer ysgolion a cholegau unigol, oherwydd efallai eu bod wedi defnyddio dulliau gwahanol o gyflwyno'r cymhwyster newydd. Gall yr amrywioldeb hwn fod o ganlyniad i amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys newid mewn strategaeth gofrestru neu newid yn y dull o gyflwyno cymhwyster. Ar gyfer cymwysterau newydd, gall bod yn gyfarwydd â'r trefniadau asesu chwarae rhan hefyd. Yn ôl y disgwyl, gwelwyd rhywfaint o amrywioldeb ar gyfer ysgolion a cholegau unigol eleni.

Gwnaethom gyhoeddi blog ar sut y dylem ddehongli newidiadau yng nghanlyniadau arholiadau ysgolion yr haf hwn. Atgoffodd y blog y cyhoedd fod canlyniadau arholiadau ysgolion yn y pen draw yn cynrychioli perfformiadau'r dysgwyr yn yr arholiadau. Mae'r perfformiadau hyn yn cael eu dylanwadu gan y dysgwyr eu hunain yn ogystal â'r ysgol a ffactorau eraill, fel digwyddiadau annisgwyl. Nod y blog oedd annog ystyriaeth briodol o newidiadau mewn canlyniadau arholiadau fel rhan o dystiolaeth ehangach am yr ysgol.

ARHOLIADAU 360°

**Pwy sy'n penderfynu ar y graddau?**

**BLOG**

**Sut dylid dehongli newidiadau i ganlyniadau arholiadau ysgol?**

[12] https://www.qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/wales-summer-2019-data-exchange/

Mae cymwysterau sydd heb eu diwygio yn parhau i gael eu dyfarnu ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Gwnaethom weithio'n agos gyda'r rheoleiddwyr cymwysterau yn y gwledydd hynny (Ofqual yn Lloegr a'r Cyngor Cwricwlwm, Arholiadau ac Asesu yng Ngogledd Iwerddon) fel rhan o ddull rheoleiddio ar sail tair gwlad sy'n bodoli eisoes. Gwnaethom gydweithio â hwy er mwyn rheoli'r risgiau i'r cymwysterau tair gwlad sy'n gysylltiedig â'r heriau sy'n codi o gael cymwysterau a gyd-reoleiddir ar draws tair gwlad ar adeg pan fo gwahaniaethau gweithredol a pholisi.

## Monitro

Parhaodd ein rhaglen gynhwysfawr o waith monitro drwy gydol y broses ddyfarnu. Unwaith eto, canolbwyntiwyd ar gymwysterau TGAU a Safon UG/Safon Uwch diwygiedig a'r cymwysterau Tystysgrif Her Sgiliau sy'n cyfrannu at Fagloriaeth Cymru.

Arsylwyd ar gyfarfodydd pwyllgorau dyfarnu ar gyfer bron pob un o'r pynciau TGAU a Safon Uwch newydd. Fe wnaethon ni fynychu 23 o gyfarfodydd dyfarnu ar gyfer pynciau TGAU a 22 ar gyfer Safon UG ac Uwch. Gwnaethom hefyd fonitro'r broses o ddyfarnu'r Tystysgrifau Her Sgiliau, gan fynychu pob un o'r pedwar cyfarfod dyfarnu.

Rhif 15

**Nifer cyfarfodydd Dyfarnu a arsylwyd**



Canolbwyntiodd ein gwaith monitro ar gydymffurfiaeth CBAC â'n rheoliadau a'n gofynion. Roedd yr holl gyfarfodydd yr arsylwyd arnynt yn cydymffurfio â'n gofynion, er bod rhai meysydd y gellid eu gwella. Lluniwyd adroddiadau manwl o'n gwaith monitro a rhoddwyd adborth i CBAC. Lle bo angen, bydd trafodaethau pellach am weithdrefnau yn digwydd.

Yn haf 2019, dyfarnwyd 8 cymhwyster TGAU y tu allan i oddefiant y rhagfynegiadau, ar un neu fwy o'r graddau allweddol. Dyfarnwyd dau gymhwyster Safon UG/Uwch y tu allan i'r goddefiant. Mewn rhai achosion arweiniodd hyn at ganlyniadau uwchlaw'r rhagfynegiad ar y graddau hynny, mewn rhai, roeddent yn is na'r rhagfynegiad. Ym mhob achos, roeddem yn fodlon â'r rhesymeg a ddarparwyd gan CBAC.

## TGAU Saesneg Iaith

Roedd y cofrestriadau ar gyfer Saesneg Iaith yn haf 2019 yn wahanol iawn i'r gyfres haf flaenorol. Roedd cyfran yr ymgeiswyr blwyddyn 11 a oedd yn sefyll y cymhwyster am y tro cyntaf yn uwch o lawer nag yn haf 2018. Roedd hyn oherwydd newidiadau i strategaethau cofrestru ysgolion a oedd yn gysylltiedig â newidiadau mewn mesurau perfformiad ysgolion. Yn 2018 roedd llawer o ymgeiswyr blwyddyn 11 eisoes wedi sefyll y cymhwyster o leiaf unwaith, erbyn haf blwyddyn 11. Ond yn haf 2019, nid oedd y rhan fwyaf o garfan Blwyddyn 11 wedi ymuno â'r cymhwyster mewn cyfres gynharach ac felly roeddent yn dechrau ar y cymhwyster am y tro cyntaf. Gwnaethom ys ystyried effaith bosibl hyn ar ganlyniadau yn ystod ein gwaith paratoi gyda CBAC.

Yn ystod y cyfarfod dyfarnu, cynigiodd y pwyllgor ffiniau gradd, ar ôl craffu ar waith myfyrwyr, a oedd yn eu tyb hwy yn cynrychioli'r safon briodol ar gyfer pob ffin gradd. Er bod ffiniau'r radd derfynol yn si na'r rhai a ddyfarnwyd yn haf 2018, roedd y canlyniadau cenedlaethol yn haf 2019 yn is nag mewn cyfresi blaenorol. Gwnaethom graffu ar y broses ddyfarnu ac roeddem yn fodlon bod y dyfarniad yn deg i ddysgwyr.

Fodd bynnag, mae'r cwymp mewn canlyniadau gradd gorau ar gyfer carfan blwyddyn 11 2019 o fwy na 4% yn destun pryder ac rydym am ddeall y ffactorau a allai fod wedi cael effaith ar y canlyniadau a chredwn fod angen cynyddol am waith pellach. Rydym am archwilio a yw'r cymhwyster yn gweithredu yn ôl y bwriad yn ogystal ag ystyried y pryderon a fynegwyd gan y pwyllgor dyfarnu ynghylch safon yr ysgrifennu a welir wrth ddyfarnu.

Byddwn yn gweithio gyda CBAC a rhanddeiliaid allweddol eraill i fwrw ymlaen â'r gwaith hwn.

## Canlyniadau

Ar y diwrnodau pan gafodd y canlyniadau TGAU a Safon UG/ Safon Uwch eu rhyddhau, gwnaethom gyhoeddi trosolwg o'r canlyniadau ar ein gwefan ynghyd â ffeithluniau yn tynnu sylw at y themâu pwysig o'r data[13].

### *Safon UG a Safon Uwch*

**Y penawdau ar gyfer canlyniadau Safon UG a Safon Uwch oedd:**

1. Mae nifer cyffredinol y cymwysterau Safon UG a Safon Uwch a gymerwyd wedi gostwng eto eleni. Er mwyn ystyried hyn, mae'n bwysig ystyried y newid yn y niferoedd a safodd y cymwysterau eleni.
2. Dylid bod yn ofalus wrth ddehongli newidiadau cymharol fach mewn canlyniadau o flwyddyn i flwyddyn oherwydd y newidiadau o flwyddyn i flwyddyn yn y niferoedd sy'n dilyn y cymwysterau.
3. Roedd nifer gwirioneddol y graddau a ddyfarnwyd yn A*, A* ac A, ac A* i E yn sefydlog ar y cyfan, gyda sifftiau bach y byddem yn eu disgwyl ac y gellir eu hystyried yn arferol.
4. Cododd canrannau cyffredinol y graddau Safon Uwch a ddyfarnwyd yn A* ac A yng Nghymru. Er bod y canrannau a gyrhaeddodd y graddau hyn wedi cynyddu, mae'n bwysig ystyried y newid yn y niferoedd a safodd y cymwysterau eleni.
5. Roedd canrannau cyffredinol y graddau Safon UG a ddyfarnwyd yn A ac A i E yng Nghymru yn sefydlog iawn o'u cymharu â'r llynedd.

ARHOLIADAU 360°

**Trosolwg o ganlyniadau haf 2019**

[13] https://qualificationswales.org/cymraeg/exams-360/a-360-look-at-the-exam-system/previous-exam-series/summer-2019/trosolwg-or-canlyniadau/

## *TGAU*

Roedd perfformiad cyffredinol TGAU Cymru yn sefydlog ar y cyfan.

**Y penawdau ar gyfer canlyniadau TGAU haf 2019 oedd:**

1. Yng Nghymru'r haf hwn, mae cyfran y graddau a ddyfarnwyd yn A* i A ac yn uwch wedi gostwng ychydig. Ar raddau C ac yn uwch, mae'r gyfran wedi cynyddu 1.2 pwynt canran ac ar raddau G ac yn uwch, y cynnydd oedd 0.8 pwynt canran.
2. Mae'r canlyniadau a gyhoeddwyd gan y Cyd-bwyllgor Cymwysterau ar gyfer arholiadau a gafodd eu sefyll yr haf hwn, yng Nghymru a ledled y DU, gan fyfyrwyr o bob oed. Felly, ar gyfer pobl ifanc 16 oed yng Nghymru, nid yw'r canlyniadau hyn yn rhoi darlun llawn o'r holl gymwysterau TGAU y maen nhw wedi'u cyflawni, am nad ydyn nhw'n cynnwys unrhyw raddau ar gyfer cymwysterau TGAU y gallen nhw fod wedi'u cyflawni mewn cyfresi arholiadau blaenorol.
3. Yr haf hwn bu cynnydd yn nifer y cofrestriadau, gan adlewyrchu cynnydd yn y boblogaeth o bobl ifanc 16 oed a newidiadau i fesurau perfformiad ysgolion.
4. Roedd y garfan o fyfyrwyr a oedd yn sefyll arholiadau TGAU mewn rhai pynciau craidd yr haf hwn yn wahanol iawn i flynyddoedd blaenorol.
5. Mae canlyniadau Saesneg Iaith ar gyfer disgyblion 16 oed ar draws y flwyddyn academaidd 2018/19 yn dangos gostyngiad o 4.1 pwynt canran ar A*-C o gymharu â 2017/18 – unwaith y caiff graddau gorau myfyrwyr eu hystyried.
6. Mae gostyngiad o 11.7 pwynt canran yn y canlyniadau gradd C ar gyfer TGAU Cymraeg Ail Iaith o gymharu â 2018. Mae'r garfan o fyfyrwyr a oedd yn sefyll yr arholiadau TGAU Cymraeg Ail Iaith newydd yr haf hwn yn wahanol i flynyddoedd blaenorol. Y cymhwyster newydd yw'r unig gymhwyster Cymraeg Ail Iaith sydd ar gael i ysgolion yr haf hwn. Mewn blynyddoedd blaenorol, gallai ysgolion gofrestru myfyrwyr ar gyfer y cyrsiau TGAU etifeddol llawn a byr mewn Cymraeg Ail Iaith neu Gymraeg Ail Iaith Cymhwysol.

Mae'n bwysig cofio mai dim ond ar gyfer arholiadau a safwyd yng Nghymru'r haf hwn gan fyfyrwyr o bob oedran y mae'r canlyniadau hyn. Nid ydynt yn rhoi darlun llawn na chywir o'r cymwysterau TGAU a gyflawnwyd gan bobl ifanc 16 oed yng Nghymru. Roedd y garfan o fyfyrwyr a oedd yn sefyll arholiadau TGAU mewn rhai pynciau craidd yr haf hwn yn wahanol iawn i flynyddoedd blaenorol.

## Canlyniadau ar Lefel Canolfan

Amlygodd adborth gan randdeiliaid y diddordeb sydd gan ganolfannau ar yr amrywiad a welant yn eu canlyniadau. Cyhoeddwyd ystadegau arbrofol[14] i gefnogi canolfannau i ddehognli newidiadau yn y canlyniadau a gosod y cyd-destun hwn.

Er mwyn sicrhau cymariaethau dilys, dadansoddodd y datganiad hwn ganlyniadau Blwyddyn 11 lefel canolfan yng ngham 1 TGAU ar sail graddau gorau ar gyfer canolfannau sydd ag o leiaf ugain cofrestriad ym mhob blwyddyn. Roedd hyn yn dangos sut roedd newidiadau i arferion cofrestru'n gynnar yn gysylltiedig â mwy o amrywiad mewn canlyniadau lefel canolfan.

Er enghraifft, ar gyfer TGAU Iaith Saesneg, gall canolfan bryderu bod eu canlyniadau yn C neu'n uwch wedi newid bum pwynt canran ond mae edrych ar y datganiad yn dangos bod 33.0% o ganolfannau wedi gweld newid o bum pwynt canran neu lai yn 2019-18 sydd i lawr o 45.1% yn 2017-18.

Rhif 16

**Canran y canolfannau a welodd newid o 5 y cant neu lai Gradd A*-C.**




*Ffynhonnell: WED/PLASC, Cyrff Dyfarnu*

[14] https://qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/centre-level-results-summer-2019-wales/

# Ar ôl y Canlyniadau

## Cyhoeddi'r canlyniadau anghywir

Fel rhan o'r broses rhoi gwybod am ddigwyddiad, rhaid i fyrddau arholi roi gwybod i ni am achosion lle mae canlyniadau anghywir wedi cael eu cyhoeddi. Gall y gwallau hyn ddigwydd oherwydd problemau gyda systemau TG byrddau arholi neu wallau gweinyddol. Rhoddwyd gwybod i ni am bedwar digwyddiad yn ymwneud â chyfres yr haf; cafodd pob un ei unioni, a rhoddwyd canlyniadau wedi'u cywiro i'r ymgeiswyr yr effeithiwyd arnynt. Ni chafwyd unrhyw effeithiau andwyol ar unrhyw un o'r ymgeiswyr hyn. Roedd hefyd yn ofynnol i fyrddau arholi roi gwybod i ni pa gamau y byddant yn eu cymryd i atal digwyddiadau o'r fath yn y dyfodol, lle bynnag y bo modd.

## Adolygiadau o waith marcio a chymedroli

Rydym wedi cyhoeddi datganiad ystadegol gydag ystadegau ar gyfer Cymru yn unig ar adolygiadau o waith marcio a chymedroli ar gyfer cymwysterau TGAU, Safon UG a Safon Uwch.[15]

Yng nghyfres arholiadau haf 2019, gofynnwyd am 9,355 o adolygiadau o waith marcio ar gyfer asesiadau TGAU yng Nghymru, o gymharu â 8,865 y llynedd - cynnydd o 5.5%. Roedd y cynnydd hwn yn nifer y ceisiadau am adolygiadau yn rhannol oherwydd cynnydd o 8.0% yn nifer y cofrestriadau TGAU yr haf hwn.

Gofynnwyd am 2,900 o adolygiadau ar gyfer asesiadau Safon UG a Safon Uwch yn ystod yr un cyfnod, o gymharu â 2,960 yn 2018, sef gostyngiad o 2.0%. Er bod nifer y cofrestriadau wedi gostwng, gallai ffactorau eraill, fel gofynion cofrestru ar gyfer Addysg Uwch, fod yn dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch ceisiadau am adolygiadau ar gyfer Safon UG a Safon Uwch.

[15] https://qualificationswales.org/cymraeg/cyhoeddiadau/adolygiadau-o-waith-marcio-a-chymedroli-ar-gyfer-cymwysterau-tgau-uwch-gyfrannol-a-safon-uwch-yng-nghymru-cyfres-arholiadau-haf-2019/

**GWYBODAETH**

**Adolygiad o farcio a cymedroli- haf 2019**

### Penawdau

Heriwyd 2.1% (i fyny o 2.0%) o'r holl raddau TGAU a gafodd dystysgrif yng nghyfres arholiadau haf 2019 a newidiwyd 0.4% (i fyny o 0.2%). Heriwyd 2.6% (i lawr o 2.7%) o'r holl raddau TAG a gafodd dystysgrif yng nghyfres arholiadau haf 2019 a newidiwyd 0.4% (dim newid o'r llynedd).

Y radd a heriwyd amlaf ar gyfer cymwysterau TGAU (A*-G) oedd D (48.3% i lawr o 58.1%). Ar gyfer Safon UG a Safon Uwch, y radd a heriwyd amlaf oedd gradd B (37.3% i fyny o 33.5%).

Yn gyffredinol, nid arweiniodd 73.4% (i fyny o 72.34%) o adolygiadau ar gyfer asesiadau TGAU a TAG at unrhyw newid mewn marciau. Mae'n bwysig nodi nad yw newid mewn marc yn arwain at newid mewn gradd o reidrwydd.

O ran TGAU, o'r adolygiadau y gofynnwyd amdanynt, nid arweiniodd 82,7% (i lawr o 84.2%) at unrhyw newid mewn gradd.
O ran Safon UG a Safon Uwch, nid arweiniodd 84.0% (i fyny o 82.5%) o'r adolygiadau at unrhyw newid mewn gradd.

# Casgliad

Mae ein gwaith o fonitro'r gwaith paratoi a chyflwyno ar gyfer cyfres haf 2019 yn awgrymu bod y gyfres arholiadau wedi'i chyflwyno'n llwyddiannus. Yn gyffredinol, prin oedd y materion a gododd a allai gael effaith andwyol sylweddol ar ddysgwyr yng Nghymru. Pan gododd materion, goruchwyliwyd camau gweithredu'r bwrdd arholi er mwyn sicrhau eu bod yn cymryd camau priodol i ddiogelu dysgwyr, cynnal safonau a chyhoeddi canlyniadau amserol a chywir. Gwnaethom fonitro'n fanwl y broses o osod safonau'r cymwysterau TGAU, Safon UG a Safon Uwch diwygiedig yng Nghymru'n unig, ac rydym yn fodlon bod y safonau wedi cael eu dwyn ymlaen yn briodol.

Rydym yn adolygu ein dull o reoleiddio a monitro'r broses o gyflwyno a dyfarnu cymwysterau cyffredinol yn barhaus. Yn dilyn cyfres arholiadau haf 2019, rydym wedi nodi meysydd lle mae angen gwneud rhagor o waith. Mae rhywfaint o'r gwaith hwn yn gysylltiedig ag archwilio'r cymwysterau TGAU diwygiedig mewn Ieithoedd Tramor Modern a bydd gwaith arall yn ystyried agweddau ar y cymhwyster TGAU Saesneg Iaith. Bydd gwaith yn parhau gyda'r nod o sicrhau y bydd cyfresi arholiadau yn y dyfodol yn parhau i gael eu cyflawni'n llwyddiannus.

Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar waith CBAC, a byddwn yn gwirio'r paratoadau ar gyfer dyfarnu cymwysterau TGAU a Safon Uwch Cymru yn y dyfodol. Byddwn yn adolygu parodrwydd CBAC ar gyfer yr heriau a'r risgiau a nodwyd. Byddwn yn addasu ein rhaglen o waith monitro ar sail canfyddiadau unrhyw waith gwerthuso ac ymchwil er mwyn llywio camau gweithredu yn ôl yr angen. Byddwn yn cynnal holiadur o ryw fath eto yn haf 2020 er mwyn i fyfyrwyr ac athrawon roi adborth ar y cymwysterau.

Rydym eisoes yn trafod y trefniadau ar gyfer cyfres haf 2020 gyda CBAC, y byrddau arholi eraill a chyd-reoleiddwyr. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod haf 2019 ac ymchwil barhaus i lywio ein trafodaethau. Fel mewn blynyddoedd blaenorol, byddwn yn cyhoeddi sut y byddwn yn ymdrin â chyfres arholiadau haf 2020.

## Mae'n gwaith yn y dyfodol yn cynnwys:

- Diweddaru cynllun monitro 2019-20 a mireinio ein prosesau rheoleiddio
- Gwerthuso'r methodolegau presennol a ddefnyddir i ddyfarnu cymwysterau a nodi cyfleoedd ar gyfer ymchwil bellach i welliannau posibl
- Ymchwilio i fethodolegau ar gyfer monitro cymaroldeb dros amser yng Nghymru a ledled y DU.
- Ystyriaeth bellach o faterion perthnasol o ran TGAU Saesneg Iaith, TGAU Cyfrifiadureg a TGAU ITM.
- Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda rheoleiddwyr a chyrff dyfarnu eraill i leihau risgiau camymddwyn, er mwyn amddiffyn ein system arholiadau.